# Adroddiad Arolygu

**Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf Powys**

**Cartrefi Cymru**
**Uned 27**
**Ystad Ddiwydiannol Heol Ddole**
**Llandrindod**
**LD1 6DF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf Powys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Medi 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Maent yn cael eu cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae'r timau o staff yn dangos ymrwymiad eithriadol i helpu'r bobl i bennu nodau er mwyn gwella eu bywydau ac i weithio tuag atynt. Caiff cyfleoedd eu creu i'r bobl gymdeithasu â phobl eraill yn y gymuned ac i ddilyn eu diddordebau unigol, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyflogaeth â thâl.

Mae cynlluniau personol manwl ar gael i'r staff eu gweld, er mwyn iddynt wybod sut mae'r bobl am gael cymorth. Mae asesiadau risg ar waith fel y gall y bobl wneud pethau â chyn lleied o gymorth â phosibl gan y staff ond gan eu cadw mor ddiogel â phosibl.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn cael cymorth rheolaidd gan eu rheolwyr llinell. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n galed i recriwtio staff newydd i'r gwasanaeth mewn ymateb i'r prinder gweithwyr gofal yn y sector ar hyn o bryd.

Mae systemau da ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn barhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol yn dangos ymrwymiad i barhau i wneud gwelliannau a fydd yn gwella bywydau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gofynnir am farn y bobl, ac ymdrinnir ag unrhyw faterion a godir mewn ffordd ragweithiol er mwyn gallu gwella'r gwasanaeth yn barhaus.


## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Maent yn cael eu trin â pharch gan aelodau o staff sy'n meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'r hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff cynlluniau cymorth eu datblygu gyda'r unigolyn a'u teilwra at eu hanghenion a'u dymuniadau. Gofynnir am farn y bobl am y gwasanaeth yn rheolaidd drwy gyfarfodydd tŷ a fforymau. Mae rhai o'r bobl ar y Cyngor Aelodau sy'n penodi ymddiriedolwyr y sefydliad. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar y lefel uchaf. Mae systemau ar waith er mwyn i'r bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg os byddant am wneud hynny. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg. Gellir cyfieithu cynlluniau cymorth a dogfennau allweddol eraill os bydd angen.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff yn annog ac yn cefnogi'r bobl i gyrraedd eu llawn botensial ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyflawni'r hyn y maent am ei gyflawni mewn bywyd. Cânt eu cefnogi i fod yn rhan o'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwaith â thâl, teithiau dydd, gweithgareddau cymunedol a gwyliau. Mae'r sylwadau gan y staff yn cynnwys: "*I truly believe from my experience that Cartrefi really strive to do what matters for people*" a "*The support the individuals receive is based on their needs and wishes*". Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff am eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r tîm rheoli yn gweithio i wella trefniadau recriwtio a chadw staff, ac yn y cyfamser, mae'r staff yn gweithio'n galed i leihau unrhyw effaith ar y bobl.

Caiff iechyd a llesiant y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Maent yn annog y bobl i fod mor iach ag y gallant drwy gynlluniau bwyta'n iach ac ymarfer corff. Gwelsom enghreifftiau o sut mae'r cymorth a gaiff y bobl i gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig iddynt yn hynod effeithiol wrth wella eu bywydau ac wrth gynnal eu llesiant emosiynol.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfleoedd hyfforddi yn rhagorol a bod y cyfleoedd hynny weithiau'n cynnwys y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn helpu'r staff i ddeall beth sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am ddigwyddiadau a all gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl. Mae asesiadau risg unigol yn helpu i annog unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol. Mae arferion recriwtio da yn golygu bod gwiriadau addas yn cael eu cwblhau cyn i staff newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth o ansawdd uchel i wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus.  Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Mae'r sylwadau yn cynnwys: "*I have an excellent support team that helps me live a normal life and be part of the community", "I get to go lots of places and try lots of new things",* ac *"I have done so much and live a full life*". Gall y bobl fynd i ddigwyddiadau yn y gymuned lle gallant gwrdd â ffrindiau neu fwynhau gweithgareddau wedi'u teilwra at eu dymuniadau. Mae'r darparwr yn creu cyfleoedd i'r bobl ymgymryd â gwaith â thâl, ac mae'r bobl yn dweud wrthym fod hyn yn helpu i feithrin eu hyder. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig iawn ac yn awyddus iawn i helpu'r bobl i gynllunio eu nodau a gweithio tuag atynt. Caiff trafodaethau rheolaidd eu cynnal i weld beth arall yr hoffai'r bobl ei wneud neu gymryd rhan ynddo. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am lwyddiannau'r unigolion ac yn dweud wrthym eu bod yn falch o'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd â'r person ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddo a'r hyn y mae am ei gyflawni. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn unol â dymuniadau'r bobl. Mae system cynllunio gofal electronig newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn galluogi'r bobl i gael mwy o reolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth. Caiff cyfleoedd eu creu i'r bobl weithio gyda sefydliadau eraill er mwyn gwella eu sgiliau a'u hyder. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan yn yr hyfforddiant a roddir i'r staff. Dywed y staff wrthym fod hyn yn llwyddiannus iawn ac yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o sut mae'r bobl am gael cymorth. Mae rhai o'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu hyfforddiant fideo i'r staff a'r bobl sy'n cael cymorth. Y bwriad yw ei rannu â sefydliadau eraill. Gwelsom enghreifftiau o'r bobl yn llwyddo i symud i fyw yn annibynnol neu i lety mwy addas diolch i'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt yn y gwasanaeth, sydd wedi gwella eu bywydau.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae systemau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Soniodd y bobl yn frwdfrydig am sut y mae'r staff yn eu helpu i fyw'n iach ac i ymarfer corff. Gwelsom enghreifftiau o'r bobl yn cymryd rheolaeth dros eu meddyginiaeth, eu cyllid, a'u hapwyntiadau iechyd. Mae asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau y caiff y broses ei rheoli'n dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi da. Maent yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd ganddynt bryderon am lesiant y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gyfforddus yn siarad â'r staff os bydd ganddynt unrhyw broblemau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r systemau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn effeithiol wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus. Mae swyddi sicrhau ansawdd newydd wedi cael eu creu er mwyn gwella'r broses ymhellach. Caiff adroddiadau ar ddiogelu, damweiniau a digwyddiadau, yn ogystal ag archwiliadau sy'n benodol i'r gwasanaeth, eu cwblhau ac maent yn cynnig newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r gwasanaeth i'r bobl. Dywedodd y staff wrthym fod y darparwr yn ymdrin ag unrhyw faterion a nodir mewn ffordd ragweithiol. Mae'r sylwadau gan y staff yn cynnwys "*Company are very good, always offer support", "always looking at ways to improve*" a "*Cartrefi are a good company to work for with dedicated teams and positive outlook".*

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'n ymweld â'r bobl yn eu cartrefi yn rheolaidd ac yn cwrdd â'r staff i gael adborth mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion yn dangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd ar unwaith mewn ymateb i'r materion a nodir yn ystod ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r holl adrannau yn y sefydliad yn golygu y gallant fanteisio ar arbenigedd a gwybodaeth ei gilydd i ymdrin â materion yn gyflym. Caiff y bobl eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ar y lefel uchaf, gan eu bod yn rhan o Gyngor Aelodau'r sefydliad, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod gan y bobl lais.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth. Mae hyn yn eu helpu i benderfynu a yw'n addas ar eu cyfer cyn iddynt gael cymorth. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae canllaw mewn fformat y gall y bobl ei ddeall, sy'n cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol iddynt. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i gefnogi ac arwain ymarfer y staff.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n llawn cymhelliant ac sy'n ymrwymedig i wella bywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi. Maent yn cyfarfod â'u rheolwyr llinell yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Dywed y staff wrthym fod y cyfleoedd hyfforddi yn rhagorol a bod yr adran hyfforddiant yn barod iawn i helpu. Mae'r arferion recriwtio yn dda ac yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn

galluogi'r staff i leisio eu barn am y gwasanaeth ac i drafod unrhyw faterion fel grŵp. Dywedodd aelodau newydd o staff wrthym fod rhaglen sefydlu dda ar waith gan y gwasanaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Mae'r darparwr yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff, sef problem sy'n wynebu'r sector cyfan ar hyn o bryd. Mae'n ymwybodol o'r effaith bosibl y mae hyn yn ei chael ar y staff ac mae'n gweithio'n galed i ymdrin â'r mater.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023